

Ysgol Mynydd Bychan

Polisi Datblygiad Personol / Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

1 Cyflwyniad

- 1.1 Rydym wedi selio ein polisi addysg ryw ar ddeddf Addysg 1996 a dogfen arweiniol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010 *Addysg Rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion* (LICC 019/2010). Yn Neddf Addysg 1996 caiff addysg ryw ei ddiffinio fel hyn – *‘learning about physical, moral and emotional development. It is about understanding the importance of marriage for family life, stable and loving relationships, respect, love and care. It is also about the teaching of sex, sexuality and sexual health.’* Rhan o’n cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg iechyd yw addysg ryw a pherthnasoedd. Tra’n defnyddio addysg ryw a pherthnasoedd (ARhPh) fel ffordd i gynnig gwybodaeth i’r plant am faterion yn ymwneud â rhyw, datblygiad personol a pherthnasoedd, gwnawn hyn gan ystyried moesau a chyfrifoldeb personol hefyd. Yn y gwersi rhown gyfle i’r plant i ofyn cwestiynau ac ystyried y materion moesol. Nid ydym yn ddefnyddio addysg ryw a pherthnasoedd fel ffordd i hybu unrhyw fath o ymgyfeiriad rhywiol.
- 1.2 *‘Mae rhaglenni ARhPh effeithiol mewn ysgolion yn cynorthwyo dysgwyr i feithrin y sgiliau a’r wybodaeth sy’n briodol i’w hoedran, dealltwriaeth a datblygiad. Galluogir dysgwyr i wneud penderfyniadau cyfrifol ynglyn a’u perthnasoedd, iechyd a lles rhywiol.’* (Addysg Rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion 2010)

2 Nod ac amcanion

2.1 Fel rhan o’r addysg rydym yn delio:

- â sut i feithrin agweddau a gwerthoedd cadarnhaol sy’n dylanwadu ar eu hymddygiad
- â’r newidiadau corfforol sy’n digwydd wrth iddynt dyfu’n oedolion:
- â’r ffordd y mae pobl yn atgennedlu;
- â pharchu eu cyrff eu hunain a phwysigrwydd y ffaith y dylid ystyried cyfathrach rhywiol fel rhan o berthynas hir-dymor, gadarn a chariadus;
- â phwysigrwydd bywyd teuluol;
- â chwestiynau moesol;
- â materion yn ymwneud â pherthynas;
- â pharch tuag at farn eraill;
- gwerthfawrogi pwysigrwydd perthnasoedd personol sefydlog a chariadus

- â chamdrin rhywiol a'r hyn y dylen nhw ei wneud os ydynt yn poeni am faterion yn ymwneud â rhyw.(Gweler polisi Amddiffyn Plant)

2.2 Mae rhaglenni ARhPh yn galluogi dysgwyr i ddeall pwysigrwydd amgylchedd sefydlog , diogel a chariadus ar gyfer bywyd teuluol. Mewn cymdeithas amrywiol, daw dysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Ysgol Mynydd Bychan yn 'cydnabod bod perthnasoedd ymrwymedig, sefydlog a chyd-gefnogol i'w cael tu allan i briodas.' Mae staff yr ysgol yn sensitif ac yn parchu gwahaniaethau, gan sicrhau na chaiff plant eu gwarthnodi oherwydd amgylchiadau eu cartref. (Gweler Polisi Cydraddoldeb)

3 Cynnwys

3.1 Mae'r ARhPh yn digwydd yng nghydestun fframwaith nod a gwerthoedd yr ysgol. Mae ARhPh yr ysgol yn rhoi gwybodaeth i'r plant am faterion yn ymwneud â rhyw a pherthnasoedd, ond mae'r addysg yn digwydd yng nghydestun yr ymwybyddiaeth o foesau a gwerthoedd sy'n sail i'n holl waith o fewn yr ysgol. Yn arbennig, credwn:

- y dylid dysgu addysg ryw a pherthnasoedd yng nghydestun priodas a bywyd teuluol; (yn ogystal gweler pwynt 2.2 uchod)
- bod addysg ryw a pherthnasoedd yn rhan o ddatblygiad ehangach yn nhermau cymdeithasol, personol, ysbrydol a moesol;
- y dylai plant ddysgu parchu eu cyrff eu hunain;
- y dylai plant ddysgu beth yw eu cyfrifoldeb i eraill, a dylent ddod yn ymwybodol o ganlyniadau gweithgaredd rhywiol;
- ei bod hi'n bwysig datblygu perthnasau da gydag eraill, yn cynnwys ymddiriedaeth a pharch;
- y dylai plant cydnabod amrywiaeth a pharchu pobl eraill, beth bynnag fo'u cyfeiriadedd rhywiol neu safbwynt diwylliannol a chrefyddol.
- bod angen i blant ddysgu pwysigrwydd hunan reolaeth.

4 Trefniadaeth

4.1 Mae'r addysg rhyw a pherthnasoedd yn digwydd mewn sawl maes o'r cwricwlwm ond yn bennaf o fewn fframwaith ABCh (Gweler Polisi ABCh) a chwricwlwm Gwyddoniaeth(Gweler Polisi Gwyddoniaeth), am ein bod yn credu y gall gyfrannu'n helaeth at wybodaeth a dealltwriaeth y plant o'u cyrff, a'r ffordd y maent yn newid ac yn datblygu.

4.2 Rydym yn addysgu'r plant am berthnasau, ac anogwn y plant i drafod materion sy'n codi. Maent yn dysgu am rannau'r corff, a maent yn dysgu beth fydd yn digwydd yn ystod llencyndod. Er enghraifft, rydym yn esbonio y bydd llais bachgen yn torri, ac yn esbonio'r mislif. Rydym yn annog y plant i ofyn am help a chyngor os ydynt yn dymuno.

4.3 Rydym yn addysgu Addysg Ryw a Pherthnasoedd yn ein gwersi ABCh a Gwyddoniaeth.
Yn y Cyfnod Sylfaen
Mae'r addysg am berthnasoedd i blant 3 i 7 oed yn canolbwyntio ar feithrin hunan-barch drwy annog dysgwyr:

- i'w gwerthfawrogi eu hunain
- i gydnabod a mynegi'u teimladau
- gwneud ffrindiau a meithrin perthnasoedd.

Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen:

- yn rhoi lle canolog i ddatblygiad cyfannol y plentyn a'i sgiliau
- yn meithrin partneriaethau cadarnhaol â'r cartref
- yn cydnabod rhan y rhiant/warcheidwaid fel addysgwr cyntaf y plentyn
- wedi'i gynllunio fel fframwaith cynyddol plant 3 i 7 oed
- yn cynnwys chwe Maes Dysgu sy'n cyd-fynd â'i gilydd.

Maes Dysgu: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen. Mae'r Maes Dysgu hwn yn galluogi plant i ddysgu amdany'n nhw eu hunain a'u perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn eu teulu a'r tu allan iddo. Caiff plant eu hannog i ddatblygu eu hunan-barch, eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol. Maen nhw'n datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod gan bobl eraill anghenion, galluoedd, credoau a safbwyntiau gwahanol. Wrth i'w hunaniaeth ddatblygu, mae plant yn dechrau mynegi eu teimladau a dangos empathi ag eraill. Mae plant yn dechrau deall eu potensial a'u galluoedd eu hunain. Caiff plant eu cynorthwyo i dyfu'n feddylwyr ac yn ddysgwyr hyderus, cymwys ac annibynnol.

Datblygiad personol

Rhoddir cyfleoedd i blant:

- dyfu'n annibynnol o safbwynt diwallu eu hanghenion o ran hylendid personol, a bod yn fwy ymwybodol o ddiogelwch personol
- fynegi a chyfleu gwahanol deimladau ac emosiynau – rhai eu

hunain yn ogystal â rhai pobl eraill.

Datblygiad cymdeithasol

Rhoddir cyfleoedd i blant:

- fod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu
- cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain
- ystyried goblygiadau geiriau a gweithredoedd iddyn nhw eu hunain ac eraill
- datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n deg ac yn annheg, a bod yn barod i gyfaddawdu
- ffurfio perthnasoedd a theimlo'n ddigon hyderus i gyd-chwarae a chydweithio ag eraill
- gwerthfawrogi ffrindiau a theuluoedd, a dangos gofal a bod yn ystyriol
- deall yr hyn sy'n gwneud ffrind da.

Lles

Rhoddir cyfleoedd i blant:

- werthfawrogi eu lles eu hunain a lles pobl eraill, a chyfrannu ato
- fod yn ymwybodol o'u teimladau eu hunain a datblygu'r gallu i'w mynegi mewn ffordd briodol
- ddeall y berthynas rhwng teimladau a gweithredoedd, a deall bod gan bobl eraill deimladau
- ddangos gofal, parch a hoffter at blant eraill, oedolion a'u hamgylchedd
- ofyn am gymorth pan fo'i angen
- ddatblygu dealltwriaeth o'r peryglon a geir yn y cartref a'r amgylchedd sydd y tu allan iddo.

Maes Dysgu: Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Fi fy hun a phethau byw eraill

Rhoddir cyfleoedd i blant:

- ddysgu enwau prif rannau allanol y corff dynol a phlanhigion, a dysgu am y modd y cânt eu defnyddio
- adnabod y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhyngddynt hwy eu hunain a phlant eraill.

Maes Dysgu: Datblygiad Corfforol

Mae'r broses o ddatblygu ymdeimlad o hunaniaeth wedi'i chysylltu'n agos â hunanddelwedd, hunan-barch a hyder plant. Cyflwynir y plant i'r cysyniadau sy'n ymwneud ag iechyd, hylendid a diogelwch, a'u cyflwyno i bwysigrwydd diet, gorffwys, cysgu ac ymarfer corff.

lechyd, ffitrwydd a diogelwch

Rhoddir cyfleoedd i blant:

- ddod yn ymwybodol o beryglon a materion yn ymwneud â diogelwch yn eu hamgylchedd.

Maes Dysgu: Datblygiad creadigol

Symud creadigol

Mae'r gweithgareddau symud creadigol yn galluogi plant i wneud cynnydd

o safbwynt eu gallu i:

- archwilio a mynegi ystod o hwyliau a theimladau trwy gyfrwng amrywiaeth o symudiadau.

Cyfnod Allweddol 2

Gwyddoniaeth yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru

Cyd-ddibyniaeth organebau

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr astudio:

- enwau, safleoedd, swyddogaethau a meintiau cymharol prif organau bodau dynol.

Yn ABCh yng Nghyfnod Allweddol 2 rydym yn addysgu'r disgyblion am:-

lechyd a lles emosiynol

Wrth i blant a phobl ifanc ddatblygu'n rhywiol, mae angen iddyn nhw ddeall newidiadau corfforol, rheoli teimladau rhywiol a mwynhau cydberthnasau diogel, cyfrifol a hapus. Gellir galluogi'r dysgwyr hefyd i archwilio'u teimladau, datblygu hunanymwybyddiaeth a hunan-barch, a datblygu eu hunan-dyb.

Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru

“Gosodir addysg rhyw a pherthnasoedd mewn fframwaith clir o werthoedd ac ymwybyddiaeth o'r gyfraith ar ymddygiad rhywiol. Mae'n ofynnol cyflwyno agweddau megis bywyd teuluol yn ei holl ffurfiau amrywiol, gan gynnwys priodas, ymddygiadau rhywiol, ystyriaethau sy'n ymwneud â bod yn rhieni, a materion sensitif mewn modd cytbwys, ac mae'n ofynnol trafod materion moesegol mewn modd gwrthrychol. Er hynny, mae paratoi'r dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad yn eu cydberthnasau personol a sicrhau eu bod yn dysgu sut i adnabod ymddygiad amhriodol llawn mor bwysig hefyd. Dylai'r dysgwyr wybod ble a sut mae cael gafael ar gymorth a gwybodaeth bersonol.”

Yng Nghyfnod Allweddol 2

Rhoddir cyfleoedd i'r dysgwyr:

- gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach
 - teimlo'n bositif amdany'n nhw eu hunain a bod yn sensitif i deimladau pobl eraill
- a deall:
- y rhesymau dros y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd yn ystod glasod gan gynnwys cenhedliad, beichiogrwydd a genedigaeth
 - ystod eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain a theimladau ac emosiynau pobl eraill
 - pwysigrwydd diogelwch personol
 - sut i wahaniaethu rhwng cyffyrddiadau priodol a chyffyrddiadau amhriodol
 - beth y dylid ei wneud neu at bwy y dylid mynd pan na fyddant yn teimlo'n ddiogel.

4.4 Rydym yn dilyn canllawiau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Awdurdod Addysg Sir Caerdydd. Addysgw'n Addysg Rhyw a Pherthnasedd o FI 3 hyd at FI 6. Fe fydd cynnwys y gwersi yn addas ac yn briodol ar gyfer oedran y plant. Gwnaiff yr athrawon eu gorau i ateb unrhyw gwestiynau yn dyner ac yn ofalus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 sicrhawn bod y bechgyn a'r merched yn gwybod sut y caiff babanod eu geni, sut y mae eu cyrff yn newid mewn llencyndod, beth yw'r mislif a sut mae'n effeithio ar ferched. Gwnawn hyn gan ystyried datblygiad emosiynol y plant.

4.5 Trefnwn gyfarfod gyda rhieni/warcheidwaid plant Blwyddyn 3 a 5 yn flynyddol er mwyn trafod y gwersi BI 3 a 4, BI 5 a 6 ac esbonio pa faterion sy'n codi a sut y byddwn yn delio â nhw. Cant gyfle i weld pa ddeunyddiau sy'n cael eu cyflwyno yn y gwersi.

5 Rôl Rhieni

5.1 Mae'r ysgol yn ymwybodol iawn mai prif gyfrifoldeb y rhieni a'r gwarcheidwaid yw addysg ryw a pherthnasoedd. Rydym yn dymuno adeiladu perthynas gadarnhaol gyda rhieni'r plant er mwyn eu cefnogi trwy gyfrwng dealltwriaeth, ymddiriedaeth a chydweithrediad. Er mwyn hybu'r bwriad hwn rydym:

- yn rhoi gwybod i'r rhieni beth yw'n polisi a'n hymarfer addysg ryw a pherthnasoedd;
- yn ateb unrhyw gwestiwn sydd gan rieni ynglŷn ag addysg ryw a pherthnasoedd eu plentyn;

- yn ystyried yn ddifrifol unrhyw fater gaiff ei godi gan riant ynglŷn â threfniadau'r ysgol mewn addysg ryw a pherthnasoedd, a'i ddwyn i sylw'r athrawon neu'r llywodraethwyr;
- yn annog rhieni i fod yn weithredol wrth adolygu'r polisi a chreu newidiadau os oes angen;
- yn rhoi gwybod i'r rhieni beth sy'n arfer dda mewn addysg ryw a pherthnasoedd, fel bod yr addysg sy'n digwydd yn yr ysgol yn cydfynd â'r addysg sy'n digwydd yn y cartref. Wrth gyfnewid gwybodaeth fel hyn credwn y bydd y plant yn manteisio wrth dderbyn cysondeb mewn gwybodaeth ynglŷn â'u cyrff a'u cyfrifoldebau.
- yn ymgynghori â theuluoedd o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol er mwyn cael syniad beth y maent yn ei gyfrif yn briodol ac yn dderbyniol.

5.2 O dan adran 405 o Ddeddf Addysg 1996 mae gan rieni yr hawl i eithrio eu plant o'r gwersi addysg ryw yn yr ysgol. Os yw rhiant yn dymuno eithrio, dylai drafod gyda'r pennaeth, ac egluro pa agwedd o'r gwersi yn mae'n anfodlon i'r plentyn ei dderbyn. Mae'r ysgol bob amser yn cydsynio â dymuniadau'r rhieni yn hyn o beth.

6 Cymryd rhan a chynhwysiant

6.1 Mae *'Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol 2010 – 2015 yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru bod pawb yn haeddu gallu cael gafael cyfartal ar wybodaeth am iechyd rhywiol waeth beth fo'u hoedran, hil, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd.'*

6.2 Rydym yn gwneud ein gorau i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal, plant o gefndiroedd teuluol ansefydlog a phlant sy'n absennol neu wedi'u heithrio o'r ysgol yn derbyn ARhPh.

6.3 Rydym yn sicrhau bod plant sydd ag anghenion dysgu arbennig yn cael eu cynnwys mewn modd priodol.

6.4 Rydym yn sicrhau bod ein rhaglen ARhPh yn diwallu anghenion ein disgyblion i gyd. Mae'n bwysig bod y disgyblion yn teimlo bod y rhaglenni ARhPh yn berthnasol iddynt ac yn sensitif i'w hanghenion.

7 Rôl aelodau eraill o'r gymuned

7.1 Rydym yn annog aelodau eraill o'r gymuned i gydweithio gyda ni wrth ddarparu cyngor a chefnogaeth i'r plant am addysg ieuchyd. Yn arbennig bydd aelodau o'r Awdurdod Iechyd Lleol, er enghraifft y nyrs ysgol a phobl broffesiynol eraill o'r byd ieuchyd, yn rhoi cefnogaeth werthfawr i ni yn ein rhaglen addysg ryw.

8 Cyfrinachedd

8.1 Mae'r addysg ryw a pherthnasoedd yn cael ei addysgu gan ein hathrawon mewn modd dyner ac mewn cyfrinachedd. Ond os bydd un o'r plant yn sôn eu bod yn cymryd rhan mewn, neu ar fin cymryd rhan mewn, gweithgaredd rhywiol, yna bydd yr athro yn trin y mater yn ddifrifol ac yn delio â'r mater yn nhermau diogelwch plant. Bydd athrawon yn ymateb mewn ffordd debyg os bydd un o'r plant yn sôn eu bod wedi cael eu camdrin yn rhywiol. Mewn amgylchiadau cyffelyb bydd yr athro yn siarad ar fyrder gyda'r plentyn. Os oes pryder gan yr athro am y sefyllfa, yna bydd yn dod â'r peth i sylw'r pennaeth. Yna bydd y pennaeth yn delio â'r mater mewn cysylltiad â phobl broffesiynol o'r byd ieuchyd. (Gweler hefyd Polisi Diogelu Plant.)

9 Rôl y pennaeth

9.1 Cyfrifoldeb y pennaeth yw sicrhau bod yr athrawon a'r rhieni yn derbyn gwybodaeth am y polisi addysg ryw a pherthnasoedd, a sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu. Cyfrifoldeb y pennaeth yw sicrhau bod y staff yn derbyn hyfforddiant, er mwyn eu galluogi i addysgu'n llwyddiannus a thrafod y pwnc mewn ffordd dyner.

9.2 Mae'r pennaeth yn trafod rhaglen addysg ryw yr ysgol gydag asiantaethau allanol, a bydd yn sicrhau bod yr oedolion sy'n gweithio gyda'r plant yn y maes hwn yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ac yn ei weithredu.

9.3 Mae'r pennaeth yn monitro'r polisi yn gyson ac yn adrodd yn ôl i'r llywodraethwyr, pan fydd hynny'n ofynnol, ar effeithiolrwydd y polisi.

10 Monitro ac adolygu

10.1 Mae'r Corff Llywodraethol yn monitro'r polisi addysg ryw a pherthnasoedd yn flynyddol. Mae'r Corff Llywodraethol yn nodi ac yn ystyried yn ofalus holl sylwadau rhieni yn ymwneud ag addysg ryw a pherthnasoedd. Mae'r Corff Llywodraethol yn gofyn i'r pennaeth i gadw cofnod ysgrifenedig, yn rhoi manylion am gynnwys

y gwersi addysg ryw a pherthnasoedd a'r dulliau addysgu.(Rhain ar gael yng Nghanllawiau Addysg Rhyw a Pherthnasoedd Sir Caerdydd.)

Arwyddwyd:-

(Pennaeth)

Arwyddwyd:-

(Cadeirydd y Corff Llywodraethol)